Gwerth ein Hamgylchedd

Gwerth Economaidd Parciau Cenedlaethol Cymru



Cyflwyniad i ‘Werth ein Hamgylchedd’

© Hawlfraint y Goron 2006

© Hawlfraint y Goron 2006

Mae **Partneriaeth Gwerth ein Hamgylchedd** yn cydweithio i ddatguddio tystiolaeth economaidd gadarn fod yr amgylchedd yn sylfaenol i ffyniant Cymru. Yn 2001 comisiynwyd ymchwil gan y Bartneriaeth a gyfrifodd, am y tro cyntaf, effaith yr amgylchedd ar economi Cymru. Dyma’r canfyddiadau:

Mae’r amgylchedd yn sylfaenol i ffyniant Cymru

- **Mae £6 biliwn o GMC** Cymru yn dibynnu’n uniongyrchol ar yr amgylchedd.
- Mae’r amgylchedd yn cynnal **1 o bob 6 o swyddi** yng Nghymru.
- Mae’r amgylchedd yn cyfrannu **£1.8 biliwn mewn cyflogau** at economi Cymru bob blwyddyn.

Gosodwyd y **gweithgareddau economaidd** sy’n ymwneud â’r amgylchedd yn y categorïau canlynol:

- Dibynnol ar ansawdd yr amgylchedd (e.e. twristiaeth a hamdden)
- Defnyddwyr dwys o adnoddau amgylcheddol (e.e. amaethyddiaeth a thynnu dŵr)
- Gwarchod a gwella’r amgylchedd (e.e. cadwraeth a rheoli gwastraff)

Mae’r bartneriaeth hefyd wedi cyhoeddi ymchwil ar werth economaidd amgylchedd hanesyddol Cymru yn ogystal â dadansoddiad o bedwar rhanbarth economaidd Cymru.

Arweinir y Bartneriaeth Gwerth ein Hamgylchedd gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru sy’n dod â’r prif gyrff sy’n gweithio ledled Cymru ynghyd:

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Asiantaeth Amgylchedd Cymru
Cronfa Dreftadaeth y Loteri Cymru
Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru – yr Adran dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (AFARh)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Cronfa Dreftadaeth y Loteri
Heritage Lottery Fund

Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru
Environment Agency Wales

Gwerth Parciau Cenedlaethol Cymru

© NTPL/Ian Shaw

Trwy garedigrwydd APCBB

Amcan yr ymchwil newydd hwn yw cyflenwi gwybodaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Awdurdodau Lleol ac eraill sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghymru ynglŷn â gwerth economaidd tri Pharc Cenedlaethol Cymru. Dengys fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Pharc Cenedlaethol Eryri yn cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru.

Mae amgylchedd tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn:

- **Cynnal bron i 12,000 o swyddi**
- **Cynhyrchu cyfanswm incwm o £177 miliwn**
- **Creu £205 miliwn o GMC**

Dengys dadansoddiad o'r ffigurau pennawd bod amgylchedd y Parciau yn cynnal yn uniongyrchol 10,200 o swyddi, £146 miliwn o incwm i fusnesau a'i fod hefyd yn cyfrannu £176 miliwn at economi Cymru. Mae'r swyddi a'r allbynnau uniongyrchol hyn yn cynhyrchu gweithgaredd economaidd anuniongyrchol pellach yng Nghymru drwy eu heffaith ar gyflenwyr a chyflogau sy'n cael eu gwario yng Nghymru. Mae perthynas yr astudiaeth hon gydag asesiadau economaidd cysylltiedig megis 'STEAM' yn cael ei hegluro yn yr adroddiad llawn ar y wefan.

Gweithgareddau economaidd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yn y tri Pharc Cenedlaethol yng Nghymru

Dangosydd	PCBB	PCASB	PCE	Cyfanswm
Cyflogaeth				
Cyflogaeth uniongyrchol	2,718	3,762	3,775	**10,255**
Cyflogaeth anuniongyrchol yn y PC	153	61	66	**280**
Cyflogaeth anuniongyrchol y tu allan i'r PC	426	831	135	**1,392**
Cyfanswm	**3,279**	**4,653**	**3,975**	**11,926**
Incwm (Miliynau £)				
Incwm uniongyrchol	40.17	51.41	55.17	**146.75**
Incwm anuniongyrchol yn y PC	1.25	0.77	0.71	**2.74**
Incwm anuniongyrchol y tu allan i'r PC	7.23	16.20	3.90	**27.33**
Cyfanswm	**48.65**	**68.39**	**59.78**	**176.82**
CMG (Miliynau £)				
Uniongyrchol	48.70	65.30	62.75	**176.75**
Anuniongyrchol	9.88	15.24	2.87	**27.99**
Cyfanswm	**58.58**	**80.54**	**65.62**	**204.74**

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn ased economaidd pwysig iawn

Gwerth Parciau Cenedlaethol Cymru

© Hawlfraint y Goron 2006

Cyflogaeth

- **Mae 10% o'r holl gyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd yng Nghymru yn seiliedig ar y Parciau Cenedlaethol.**
- **Yn y Parciau Cenedlaethol mae canran y swyddi sy'n ddibynnol ar yr amgylchedd yn fwy na dwbl canran cyfartaledd Cymru.**

O ystyried y tri chategori cyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd dengys yr ymchwil bod proffiliau cyflogaeth tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn debyg, ond eu bod yn hollol wahanol i'r Gymru gyfan. Y sectorau pwysicaf yw gweithgareddau sy'n ddibynnol ar ansawdd yr amgylchedd, megis twristiaeth a hamdden, a defnyddwyr dwys yr amgylchedd, megis amaethyddiaeth a physgota.

Twristiaeth yw'r prif gyflogwr ym Mharciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Sir Benfro. Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog amaethyddiaeth yw'r sector mwyaf.

Trwy garedigrwydd Cyngor Sir Benfro

Budd y tu allan i'r ffiniau

- **Mae'r Parciau Cenedlaethol yn eiconau ar gyfer twristiaeth y tu mewn a'r tu allan i'w ffiniau.**
- **Maent yn cynnig delwedd brandio cryf ar gyfer nwyddau a gwasanaethau Cymru.**
- **Mae llawer o fudd economaidd y Parciau yn digwydd y tu allan i'w ffiniau.**
- **Yn ogystal â chefnogi'r economi lleol felly, mae'r Parciau yn cefnogi economi Cymru gyfan.**

© APCE/SNPA

< Edrychodd yr ymchwil ar sut yr elwa Dolgellau o fod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri o'i gymharu â Machynlleth, tref y tu allan i'r Parc. Dengys y canlyniadau bod y ddwy dref yn elwa yn gyfartal o'r Parc Cenedlaethol a'i amgylchedd. Mae hyn yn amlygu gwerth y Parciau i Gymru gyfan.

Gwerth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

© APCBB/Mari Roberts

© APCBB/Nigel Turner

© APCBB/Mari Roberts

Mae amgylchedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn

- **Cynhyrchu cyfanswm incwm o £49 miliwn**
- **Cynnal bron i 3,300 o swyddi**
- **Cyfrannu £59 miliwn at GMC Cymru**

Amaethyddiaeth yw sector cyflogi mwyaf Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae gweithgareddau twristiaeth, yn enwedig hamdden, hefyd yn bwysig. Mae pobl leol o ranbarth De Cymru sy'n ymweld am y dydd yn gyfran sylweddol o ymweliadau twristiaid â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er mai Bannau Brycheiniog sydd â'r gyflogaeth uniongyrchol isaf o'r holl Barciau Cenedlaethol, yma mae'r gyflogaeth anuniongyrchol fwyaf o fewn ei ffiniau. Mae lefel uchel o hunan gynaladwyedd yn economi Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ymysg yr enghreifftiau penodol mae gwaith contractio amaethyddol o ffynonellau lleol, a'r diwydiant croeso sy'n defnyddio bwyd lleol i hybu gwerthiant.

Darganfyddiadau Allweddol

Cyflogaeth

- Cyfanswm y gyflogaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag amgylchedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw 2,718 o swyddi.
- 579 yw'r gyflogaeth anuniongyrchol.
- Mae oddeutu tri chwarter (74%) o'r gyflogaeth anuniongyrchol yn digwydd y tu allan i'r Parc.

Incwm

- Mae'r incwm uniongyrchol o'r Parc Cenedlaethol yn £40.17 miliwn.
- Mae'r incwm anuniongyrchol yn £8.48 miliwn ychwanegol.
- Mae 85% (£7.23 miliwn) o'r incwm anuniongyrchol o fudd i weddill economi Cymru y tu allan i ffiniau'r Parc.

< Rhoddwyd gwobr 'Mynediad Gorau' i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gan Gymdeithas Geffylau Prydain (CCP) oherwydd mai dyma'r Parc Cenedlaethol mwyaf gweithgar o ran agor llwybrau merlota. Mae hyn wedi sicrhau budd economaidd sylweddol i fusnesau o fewn y Parc.

Mae economi Cymru gyfan yn elwa o'r Parciau Cenedlaethol

Gwerth Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro

© NTPL/Ian Shaw

Mae amgylchedd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn

- **Cynhyrchu cyfanswm incwm o £68 miliwn**
- **Cynnal 4,653 o swyddi**
- **Cyfrannu £81 miliwn at GMC Cymru**

Mae effaith Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ar yr economi y tu allan i'w ffiniau yn enfawr oherwydd mai arfordir yw yn bennaf. Mae'r cyfan bron o'r gyflogaeth anuniongyrchol a'r incwm anuniongyrchol a gynhyrchir gan amgylchedd y Parc o fudd i weddill economi Cymru. Gall gweithwyr cyflog, nwyddau a gwasanaethau deithio'n rhwydd i mewn ac allan o'r Parc; lleolir y rhan fwyaf o gyflenwyr a gweithwyr cyflog y tu allan i'r Parc. Mae'r rhan fwyaf o'r gyflogaeth yn dibynnu ar dwristiaeth.

© Hawlfraint y Goron 2006

Darganfyddiadau Allweddol

Cyflogaeth

- Cyfanswm y gyflogaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag amgylchedd Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yw 3,762 o swyddi.
- 892 yw'r gyflogaeth anuniongyrchol.
- Mae 93% o'r gyflogaeth anuniongyrchol yn digwydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Incwm

- Mae'r incwm uniongyrchol o Barc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro yn £51.41 miliwn.
- Mae'r incwm anuniongyrchol yn £16.97 miliwn ychwanegol.
- Mae 95% (£16.2 miliwn) o'r gyflogaeth anuniongyrchol yn digwydd y tu allan i'r Parc.

© Hawlfraint y Goron 2006

< Mewn arolwg diweddar a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i'r budd a ddeillia o Lwybrau Cenedlaethol Cymru, gwelwyd bod darparwyr llety yn y Parc yn elwa'n sylweddol o Lwybr Arfordir Sir Benfro, gyda bron i hanner y sawl y cysylltwyd â hwy yn dweud bod y Llwybr yn 'bwysig iawn i lwyddiant ariannol' eu busnes. Dengys arolwg Defnyddwyr Llwybr yr Arfordir bod y llwybr wedi cynhyrchu oddeutu £14m i'r economi lleol (1997).

Gwerth Parc Cenedlaethol Eryri

©NTPL/Ian Shaw

©NTPL/Joe Cornish

© Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

Mae amgylchedd Parc Cenedlaethol Eryri yn

- **Cynhyrchu cyfanswm incwm o £60 miliwn**
- **Cynnal bron i 4,000 o swyddi**
- **Cyfrannu £66 miliwn at GMC Cymru**

Twristiaeth yw cyflogwr pwysicaf Parc Cenedlaethol Eryri. Mae llawer o'r budd economaidd yn digwydd y tu allan i'w ffiniau. Mae llawer o'r ymwelwyr dyddiol a ddaw i'r Parc yn lletya y tu allan i'w ffiniau. Felly mae nifer yr ymwelwyr yn uchel ond mae gwariant y pen o fewn y Parc yn isel. Mae busnesau yn Eryri yn cyflogi pobl sy'n byw yn y Parc yn bennaf (82%) ac yn prynu mwy na hanner eu cyflenwadau o ffynonellau o fewn ei ffiniau.

Darganfyddiadau Allweddol

Cyflogaeth

- Cyfanswm y gyflogaeth uniongyrchol sy'n gysylltiedig ag amgylchedd Parc Cenedlaethol Eryri yw 3,775 o swyddi.
- 201 yw'r gyflogaeth anuniongyrchol.
- Mae dwy ran o dair o'r gyflogaeth anuniongyrchol (67%) yn digwydd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Incwm

- Mae'r incwm uniongyrchol o Barc Cenedlaethol Eryri yn £55.17 miliwn.
- Mae'r incwm anuniongyrchol yn £4.61 miliwn ychwanegol.
- Mae 85% (£3.9 miliwn) o'r incwm anuniongyrchol o fudd i weddill economi Cymru y tu allan i'r Parc.

< Partneriaeth rhwng Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Pharc Cenedlaethol Eryri yw Cynllun Llwybrau Ucheldir Eryri sydd wedi derbyn £1.5 miliwn o Ewrop. Mae wedi creu 16 o swyddi, wedi gwella ansawdd y tirlun ac wedi ychwanegu at fedrau gweithwyr lleol.

Mae economi Cymru gyfan yn elwa o'r Parciau Cenedlaethol

Casgliadau

Dynodir Parciau Cenedlaethol er mwyn gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt ac etifeddiaeth ddiwylliannol, ac i roi bob cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r ardal, tra'n ceisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd eu cymunedau.

Yn aml ystyrir bod y ddyletswydd i warchod yn cyfyngu ar ddatblygiad. Fodd bynnag, dengys yr ymchwil hwn bod y tri Pharc Cenedlaethol yn cyfrannu'n sylweddol at economi eu rhanbarthau, ac yn wir at economi Cymru.

Mae nodweddion eiconig yr amgylchedd yn y tri Pharc Cenedlaethol yn atyniadau o bwys i ymwelwyr. Mae eu gwerth economaidd o fudd i Gymru gyfan.

Mae'r Parciau yn parhau i fod angen eu gwarchod yn gadarn i sicrhau eu parhad fel ased o bwys i Gymru. Bydd yr ymchwil hwn yn darparu'r dystiolaeth i gynyddu cydnabyddiaeth o'u gwerth.

Am ragor o wybodaeth:

Ffoniwch yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar **029 2046 2281.** Am gopi o'r adroddiad llawn ewch i **www.nationaltrust.org.uk/walespolicy**

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael mewn print fformat mawr.

Cyhoeddwyd ar bapur nad yw'n cynnwys clorîn ac a wnaed o ffynonellau cynaladwy gan ddefnyddio inciau yn seiliedig ar lysiau.

Hydref 2006.

Ariannwyd yr ymchwil ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru.

YR YMDDIRIEDOLAETH GENEDLAETHOL
THE NATIONAL TRUST

Llun y clawr © NTPL/Andrew Butler. Y dudalen hon © Hawlfraint y Goron 2006